

### Trefniadau Goruchwylio Safonau'r Iaith Gymraeg

### **Prifysgol Aberystwyth**

# 1.0 Cymeradwyo

- 1.1 Mae'r cyrff mewnol canlynol wedi cymeradwyo Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni ymrwymiadau'r Safonau yn y Brifysgol:
  - Tîm Gweithredol y Brifysgol
  - Cyngor y Brifysgol

#### 2.0 Gweithredu

- 2.1 Cyfrifoldeb Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg y Brifysgol yw gweithredu'r Safonau o ddyddi ddydd a sicrhau bod unigolion ac adrannau yn ymwybodol o'u hymrwymiadau o dan y Safonau.
- 2.2 Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn dilyn rhaglen y Cynllun Gweithredu a fydd yn cael ei ddiwygio'n flynyddol.
- 2.3 Mae gan bob cyfadran, adran academaidd a gwasanaeth proffesiynol yn y Brifysgol gyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu Safonau'r Gymraeg yn eu hadrannau eu hunain sy'n berthnasol i'w gwaith gan gynnwys cadw cofnodion a monitro.

#### 3.0 Monitro


3.1 Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn monitro cydymffurfiaeth â'r Safonau trwy ddulliau amrywiol sy'n cynnwys llunio gweithdrefnau a chanllawiau, ymweld ag adrannau, paratoi adroddiadau a chasglu data ynghyd â chynnal arolygon a grwpiau defnyddwyr ac ymarferion hap-wirio.

### 4.0 Cwynion

4.1 Mae gan y Brifysgol weithdrefn ar gyfer derbyn cwynion a sylwadau am fethiannau honedig i gydymffurfio â'r Safonau (gw. HYPERLINK "https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/complaints-procedure/")

### 5.0 Adrodd

- 5.1 Paratoir Adroddiad Blynyddol ar weithredu'r Safonau gan ddarparu gwybodaeth yn unol â'r gofynion a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Iaith Gymraeg. Derbynnir a chymeradwyir yr Adroddiad Blynyddol gan Dîm Gweithredol a Chyngor y Brifysgol.
- 5.2 Cyflwynir adroddiadau cynnydd ar y gwaith ac adroddiadau monitro ar brosiectau penodol



5.3 Mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg yn gyfrifol am arwain a monitro Strategaeth Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, sef y Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg, ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau Iaith gan ddatblygu hyfforddiant a chyngor priodol.<sup>1</sup>

## 6.0 Gwybodaeth bellach

- 6.1 Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau goruchwylio'r Safonau Iaith yn y Brifysgol drwy gysylltu â'r canlynol:
  - Dr Mari Elin Jones, Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (mlj@aber.ac.uk; 01970 622049)
  - Dr Gwenno Piette, Swyddog Datblygu'r Gymraeg (gws@aber.ac.uk; 01970 622044)

<sup>&</sup>lt;sup>1</sup> Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp yn darparu rhagor o wybodaeth am ei gyfrifoldebau a'r modd y'u cyflawnir.